

Rhai syniadau am gemau i chwarae adref i ddatblygu gwrando da !



Helpa Drysor.

Gêm i ddatblygu geirfa. Rhiant i alw allan llythyren. Plentyn i redeg o gwmpas y tŷ i chwilio am eitem sy'n cychwyn hefo'r un llythyren. Plentyn ddal yr eitem i fyny a'i enwi i sgorio pwynt ! Os yn gywir rhiant i alw allan llythyren arall ...! Gem dda i losgi egni a datblygu gwrando a geirfa.

I wneud y dasg yn anoddach y rhiant i alw GAIR allan. Plentyn yna angen dod o hyd i eitem yn y tŷ sydd yn cychwyn hefo'r **lythyren/sŵn olaf** e.e Car.

Plentyn i chwilio am eitem sy'n cychwyn hefo'r lythyren 'r' er mwyn sgorio pwynt.

Celwydd Noeth!

Gêm pâr. Un i gyflwyno partner a gwybodaeth diddorol am y partner. Llall i wrando yn astud ar y gwybodaeth a pam yn clywed celwydd – gweiddi CELWYDD NOETH

ee. Dyma Sian, mae hi yn byw yn Gaernarfon. Mae hi yn 8 oed.

“ CELWYDD NOETH ! Dwi yn 12 oed”

Pwynt am bob gelwydd da chi'n glywed!

Cario Negas!

Pasio darn negas o un aelod o'r teulu i'r llall. Pawb angen gwrando a cofio'r negas cyn ei basio mlaen.

Person olaf i alw'r negas allan.

Gellir gwneud y negas mor gymhleth a doniol a phosib.

Beth am stori.

Creu stori deulu. Pawb i ychwanegu un brawddeg yn eu tro i'r stori. Angen gwrando, cofio a dychymyg da i greu stori wych !



Sgwena fo lawr!

Gêm pâr. Dewis llyfr. Un i ddarllen darn o'r llyfr tra bo llall yn cofnodi be mae o'n glywed a'i gofio !
Gellir addasu'r gêm yn ôl lefel.

Dal y pry!

Gêm pâr neu 2 grŵp. Dewis 20-30 gair ar gardiau fflach. Eu gosod ar y wal neu ar y bwrdd cegin.



Plant i wrando ar air a swatio'r gair cywir mor gyflyn a gallwch .

Pwynt am y cyflymaf i swatio'r gair cywir.

Grŵp i gymryd tro mewn rhes neu rês pâr yn erbyn eu gilydd.

Anghenfil

Gêm papur a pensil. Person hefo'r papur a pensil o ofyn cwestiynau yn eu tro i bawb o'r teulu am sut anghenfil mae nhw'n ddychmygu ee Sawl llygid ? Sut goesau ? Sawl braich ?

Pam yn cael ateb person i dynnu llun yr anghenfil cyn ei ddangos i bawb !



Clap a Gair

Dewis thema geiriau ee ffrwythau . Rhiant i alw geirfa ar hap . Pam fo plentyn yn clywed gair sy'n ffitio i'r thema ee' banana' mae nhw'n Clapio.

Gellir creu thema mor gymhleth a da chi eisiau. ee prifddinasoedd

Angen gwrando a canolbwyntio i'r gem yma !

.

Dawnsio!

Cerddoriaeth hwyliog ymlaen. Plentyn i ddawnsio a pam mae'r miwsig yn stopio plentyn yn rhewi yn yr unfan !

Angen gwrando ar y cerddoriaeth yn astud.

Ras geirfa

Rhiant i gychwyn hefo gair. Plentyn i wrando am y llythyren / sŵn olaf o'r gair a meddwl am air sy'n cychwyn hefo'r sŵn hwnnw.

e.e car.....radio.....olwyn.....naw

Pwy all gyrraedd 100 gair !